

CRT Pen-y-bont ar Ogwr
Tîm Clinigol Acíwt

Llwybr Cyflym Arall

Ffoniwch y Pwynt Mynediad Cyffredin ar 01656 642279

Neu Ffacsio atgyfeiriad i'r Pwynt Mynediad Cyffredin ar 01656 815074

Llun-Gwe 0830 – 1630awr

Pwy all gyfeirio? Unrhyw un – Gall cleifion hunangyfeirio, perthnasau a ffrindiau a hefyd Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (ond mae'r canllaw yma wedi cael ei lunio ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol).

Cyfeirwyr Dibynadwy	(Efallai y bydd rhaid i gyfeirwyr nad ydynt ar y rhestr ddarparu rhagor o wybodaeth)
Mewn Gofal Eilaidd	Gofal Sylfaenol/Yn y Gymuned
Timau Breguster Acíwt YTC Timau Gofalu am yr Henoed YTC Ysbyty Dydd Pendre YTC Ysbyty Dydd Maesteg	Meddygon Teulu (o ardal Pen-y-bont ar Ogwr) Parafeddygon WAST ac APPs (gweler Llwybr Cyflym WAST) Nyrsys Ardal

Pwy sydd â chyfrifoldeb clinigol pan mae'r ACT yn gysylltiedig? Dylai gofal meddygol parhaus gael ei ddarparu'n ddiofyn gan feddyg teulu'r claf. Os bydd problem glingol aciwt, bydd yr ACT yn trafod gyda'r meddyg teulu a yw eisiau i'r ACT reoli'r broblem honno neu hyd yn oed, dros dro, gofalu am y claf yn llwyr (h.y. cyfnewid i llwybr Meddygol Cyflym).

Beth ddylwn i ei wneud i gyfeirio? Ffonio neu anfon/ffacsio atgyfeiriad i'r Pwynt Mynediad Cyffredin (PMC). Mae gan CRT nifer o dimau sy'n gallu ymateb i gleifion gan ddibynnu ar eu hanghenion. Bydd ein tîm PMC aml-broffesiynol yn sicrhau bod pob atgyfeiriad yn cyrraedd y tîm mwyaf priodol felly cofiwch wneud yn siŵr bod eich atgyfeiriad yn cynnwys digon o fanylion er mwyn iddynt wneud y penderfyniad hwnnw'n gyflym. Edrychwch isod i weld pa lefel o angen fyddai'n arwain at ymateb gan yr ACT o dan y Llwybr Cyflym Arall.

Gwasanaethau ACT

- Asesiad Breguster Cyflym/gofal ac ymyriad/gwasanaeth osgoi derbyn i ysbyty i atal dirywiad pellach yn ieched neu annibyniaeth y claf. ARGYFWNG.

- Gall sefyllfa gael ei galw'n argyfwng oherwydd:

* Mae gan y claf gyfuniad o syndromau Breguster – fel codymau, anghynhwyster heb ddiagnosis, nam gwybyddol, galluoedd swyddogaethol wedi lleihau neu'n amrywio (ymateb anghymesur i gyffuriau neu fân salwch) ac angen Asesiad Geriatrig Cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod y claf yn cael y siawns orau posib i adfer/cynnal ei annibyniaeth a'i les.

* Mae'r claf yn wynebu dirywiad swyddogaethol aciwt neu aciwt-ar-gronig sydd nawr yn gofyn am ofal brys a'r unig opsiynau eraill yn lle cyfraniad yr ACT yw derbyn ar unwaith i'r ysbyty neu leoliad ysbaid preswyl brys.

* Mae'r claf wedi colli'i symudedd yn **aciwt** (heb unrhyw feini prawf eithrio perthnasol)

- Gwasanaeth asesu codymau yn y cartref.

* Ar gyfer cleifion sydd, am ba reswm bynnag, ddim yn ymgeiswyr addas ar gyfer gwasanaethau ysbaid dydd Pendre a Maesteg.

Meini Prawf Eithrio

- Poen aciwt yn y frest
- Byr eich gwynt – aciwt
- Amheuaeth o dorasgwrn (angen diagnosis)
- Gwaedlif mawr
- Strôc newydd/FAST positif (angen diagnosis/asesiad)
- Cleifion 17 oed neu iau

CRT Pen-y-bont ar Ogwr
Tîm Clinigol Acíwt

Llwybr Cyflym Arall

Ffoniwch y Pwynt Mynediad Cyffredin ar **01656 642279**

Neu Ffacsio atgyfeiriad i'r Pwynt Mynediad Cyffredin ar **01656 815074**

Llun-Gwe **0830 – 1630awr**

Gwneud atgyfeiriad i'r ACT gan ddefnyddio Llwybr Cyflym Arall

Atgyfeiriadau Gofal Eilaidd	Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol / Cymunedol
<p>Gwnewch yn siŵr bod gennych chi holl fanylion perthnasol y claf, ei wybodaeth glinigol a'i gynllun rheoli wrth law.</p>	<p>Llenwch ffurflen gyfeirio CRT.</p> <p>Cofiwch gynnwys cymaint o wybodaeth â phosib am anghenion gofal y claf, ei broblemau clinigol a gwybodaeth am y teulu, fel manylion y perthynas agosaf a rhifau ffôn cyswllt. Bydd hyn o gymorth i sicrhau ymateb mor gyflym â phosib gan ein Gweithwyr Proffesiynol sydd ar Ddyletswydd.</p> <p>Gofynnir yn garedig i feddygon teulu anfon copi o grynodedd meddygol y claf a'i feddyginiaeth.</p>
<p>Llenwch ffurflen gyfeirio CRT.</p> <p>Cofiwch gynnwys cymaint o wybodaeth â phosib am anghenion gofal y claf, ei broblemau clinigol a gwybodaeth am y teulu, fel manylion y perthynas agosaf a rhifau ffôn cyswllt. Bydd hyn o gymorth i sicrhau ymateb mor gyflym â phosib gan ein Gweithwyr Proffesiynol sydd ar Ddyletswydd.</p> <p>Gofynnir i weithwyr proffesiynol mewn ysbytai anfon copi o unrhyw CGA diweddar sydd ganddynt ar gyfer y claf neu, fel dewis arall, crynodeb clinigol o'r claf a'i gyswllt.</p>	<p>Ffasiwch eich atgyfeiriad wedi'i lenwi i:</p> <p>01656 815074</p>

Ffacsiwch eich atgyfeiriad wedi'i lenwi i:

01656 815074

Os ydych yn cyfeirio ar sail asesiad Codwm yn y cartref (er enghraifft – ddim yn addas ar gyfer eich gwasanaeth chi), byddwn yn derbyn atgyfeiriad ar e-bost hefyd:

Ffoniwch linell ffôn HOT yr ACT i drafod ac i gael y cyfeiriad e-bost ar gyfer yr Ymarferydd ar alwad ar 07773 256619